Branwen – CA5

Tasg 5: Cyfenwau

Roedd yr hen Gymry'n cael eu hadnabod gan enw a fyddai'n disgrifio rhywbeth amdanyn nhw (yn aml lliw eu gwallt), neu enw a fyddai'n eu cysylltu â'u tad fel gyda 'Branwen ferch Llŷr.

Yn enw 'Penarddun ferch Beli fab Mynogan' dysgwn fod Penarddun yn ferch i Beli, ac roedd Beli yn fab i Mynogan.

Weithiau byddai'r 'ferch' yn troi yn 'ych' a'r 'mab' yn troi yn 'ap' neu 'ab'.

Dafydd ap Gwilym = Dafydd fab Gwilym

Owain ab Ifan = Owain fab Ifan.

Sylwch fod 'ap' yn troi'n 'ab' o flaen llafariad.

Mae llawer o'n cyfenwau ni hyd heddiw yn deillio o'r traddodiad hwn

Bowen	yn dod o	ab Owen
Price	yn dod o	ap Rhys
Powell	yn dod o	ap Hywel

Tasg: Darllenwch yr erthygl yn y ddolen isod a dyfeisiwch gyfenwau newydd i chi a'ch cyfeillion. Byddwch yn ddoeth a charedig!

http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/safle/themau/hanes_teulu/03cyfenwau.shtml